**Sesiwn 1999-2000 Rhif 41**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 18 IONAWR 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd** (30 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad Busnes: y Trefnydd**

**Dadl ar Gynhwysiant Cymdeithasol: cynnydd ar y cynllun gweithredu drafft**
Bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r cynllun gweithredu bras a osodwyd ar 11 Ionawr 2000, yn cydnabod bod angen ymdrechu ar y cyd i hybu cynhwysiant cymdeithasol, ac yn cytuno bod angen ymrwymo o'r newydd i gymryd camau integredig, wedi'u targedu i ymdrin â phroblemau penodol y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Dewiswyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Yn llinell un, dileer y gair "cymeradwyo" a rhodder "nodi" yn ei le.

**Gwelliant 2 - Helen Mary Jones (Llanelli);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Yn llinell dau ar ôl "ymdrechu ar y cyd" ychwaneger "ynghyd ag adnoddau ychwanegol sylweddol …"

**Gwelliant 3 - Helen Mary Jones (Llanelli);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Ychwaneger ail baragraff

"Mae’r Cynulliad yn cyfarwyddo’r Cabinet i ddod â’r Cynllun Gweithredu manwl yn ôl gerbron y Cynulliad llawn i’w drafod ymhellach pan fydd targedau wedi’u pennu a sicrhau bod y Cynllun Gweithredu’n cael ei drafod, ac mae hefyd yn cyfarwyddo Pwyllgorau’r Cynulliad i fonitro ac adolygu’r cynllun yn rheolaidd."

**Gwelliant 4 - David Melding (Canol De Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod

Ar ôl y geiriau "y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru"

dileer yr atalnod llawn ac ychwaneger: "ymhellach mae’r Cynulliad hwn yn credu mai’r ffordd fwyaf effeithiol o hybu cynhwysiant cymdeithasol yw pennu a chyflawni targedau ymestynnol ar gyfer datblygu economaidd a gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru"

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig;

"Wrth gydnabod yr angen i fynd i’r afael â dieithrwch cymdeithasol yng Nghymru, mae’r Cynulliad hwn yn nodi yn arbennig:

gwerth darparu addysg y blynyddoedd cynnar o safon i bob plentyn 3 oed yn ogystal ag i bob plentyn 4 oed.

gwerth darparu profion llygaid ac archwiliadau deintyddol am ddim.

yr angen i ehangu cyfleoedd ar gyfer ail-hyfforddi a datblygu medrau newydd.

yr angen i wella ansawdd y stoc dai.

y bygythiad i gymunedau yn sgil Mesur arfaethedig Swyddfa’r Post a fydd yn bygwth hyfywedd llawer o swyddfeydd post.

yr angen i wella cysylltiadau trafnidiaeth.

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

"Yn ogystal mae'r Cynulliad hwn yn:

cydnabod pwysigrwydd sicrhau'r cyfan o'r Arian Amcan 1 y mae gennym yr hawl iddo o safbwynt mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol ac felly mae'n cydnabod pwysigrwydd darparu arian cyfatebol i Gymru yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir yng Ngrant Bloc Barnett.

yn galw am ehangu'r rhaglen "Pobl mewn Cymunedau" i gymunedau difreintiedig pellach ledled Cymru yn ogystal â'r wyth cymuned sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd.

yn mynnu bod unrhyw dargedau/cerrig milltir a sefydlir wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu yn cael eu dwyn gerbron cyfarfod llawn pellach yn y dyfodol i'w cymeradwyo."

**Cymeradwyo Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2000**

Cynnig bod y Cynulliad:

- yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfu ar y Gorchymyn drafft "Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaethau Arwystlon) (Cymru) 2000" a osodwyd gerbron y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 1999.
- yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft.
- yn cymeradwyo y gwneir y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd gerbron y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 1999.

**Pwnc ar gyfer Dadl Fer** (i gychwyn erbyn 5pm)

Geraint Davies (Rhondda); Y Cymoedd, Heddiw ac Yfory

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 19 Ionawr 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**